# y dinesydd

Tachwedd 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 223

# Hitler a Dewi Sant

Fe wyddom i fom ddinistrio Cadeirlan Llandaf yn Ionawr 1941, ond disgynnodd bom arall hefyd tua'r un adeg, a hynny ar hen eglwys hardd Dewi Sant yng Ngerddi Howard. Fe fu'n rhaid i'r aelodau addoli yn y festri am flynyddoedd a hynny ar adeg pan oedd safle'r Gymraeg yn ddigon bregus yn holl addoldai'r ddinas.

Trwy lwc i'r eglwys, y ficer ar y pryd oedd y Canon Reginald Rosser, gŵr na wyddai ystyr y gair 'ildio', ac fe fu'n rhaid iddo frwydro yn erbyn rhai fel yr Esgob John Morgan, Cymro a ddaeth yn ddiweddarach yn Archesgob Cymru, i gynnal eglwys Gymraeg yng Nghaerdydd. Ond digwyddai Eglwys Andreas Sant yng nghanol y ddinas fod yn brin ei haelodau yn y pumdegau ac roedd yn hawdd i'r ychydig addolwyr fynd i Eglwys Teilo Sant, gan adael adeilad gwag i'r Canon Rosser ac eraill ddisgyn arno, ac ar 1 Tachwedd 1956 symudodd Eglwys Dewi Sant yno, ac y mae yno o hyd.

Ar y cyntaf o Dachwedd eleni, Dydd Gŵyl yr Holl Saint, pan fyddai ysbrydion yn cerdded y wlad slawer dydd, bu cymundeb arbennig i ddathlu'r achlysur. Yn absenoldeb y ficer presennol, y Parchedig Aled Edwards oherwydd afiechyd, roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Maxwell Evans. Pregethwyd gan y cyn-Archesgob George Noakes, yr un a olynodd Canon Rosser yn offeiriad, a'r Parchedigion Leslie Evans a Saunders Davies, dau offeiriad arall a roes wasanaeth clodwiw i'r eglwys yn y ddinas, yn cymryd rhan, ynghyd ag eraill o swyddogion yr eglwys. Darparodd y gwragedd swper croeso i bawb a ddaeth i'r eglwys orlawn.

Yn y man, bydd rhan o'r eglwys yn cael ei haddasu i gofio am Canon Rosser, y gŵr a wnaeth gymaint yn ei ddydd dros eglwys y ddinas, un oedd yn hoelen wyth ymhlith pregethwyr Cymru.

# Ymateb i apêl *Y Dinesydd*

Yn rhifyn Mai o'r *Dinesydd* apeliwyd am offeryn, piano neu allweddell i Bentref SOS y Plant yn Capetown, De Affrica. Cafwyd ymateb. Roedd Hywel ac Eileen Williams wedi rhoi allweddell i Eglwys y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd ac mae'r eglwys honno yn ei thro wedi penderfynu trosglwyddo'r offeryn i'r Pentref SOS. Mae un llong, RM *Y Santes Helena*, a berthyn i gwmni Curnow Lines yn hwylio'n gyson rhwng Capetown a Chaerdydd ac fel arwydd o ewyllys da i fudiad y Pentrefi SOS, cytunodd y cwmni hwn i'r offeryn gael ei gludo'n rhad ac am ddim; mae ar ei ffordd i Capetown ar hyn o bryd.

* * *



Yn y llun gwelir dwy o staff Pentref SOS y Plant, Capetown, sef Aelwen Michael (cyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf) a Freda Preston, sydd wedi dod i Gaerdydd am wyliau byr, yn derbyn yr offeryn ar ran y Pentref yn festri capel y Tabernacl oddi wrth Hywel ac Eileen Williams.

# Y Dinesydd

**Tachwedd 1996, Rhif 223. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at un o'r canlynol erbyn 18 Tachwedd:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 250439): Gweithgareddau Dysgwyr.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Diolch i'r cymdeithasau canlynol am eu rhoddion at goffrau'r *Dinesydd*: Cymry'r Wenallt (£25); Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd (£10); Cylch Cinio'r Barri (£50). Diolchwn yn arbennig i Mrs Heulwen Jones am rodd er cof am Mr Lynn Jones ac i Mrs Nell Thomas am rodd er cof am Mr Gweirydd Thomas.

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................

............................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: .....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................


............................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: .....................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

# CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 155** **Tachwedd 1996**




**AR DRAWS**

1. Perthynol i adeilad cysegredig. (8)
6. Y bardd a ddaeth o'r Glyn. (4)
9. Mynna y mae ef. (6)
10. Mae ei thema, mewn cynnwrf, yn llenwi awr o sôn am dir a stoc. (7)
11. Y gwarchodaeth sy'n ofynnol rhag llygru a cholli. (8)
12. Cyflwr ein rhieni cyntaf, heb ddail ffigys. (6)
13. Fel hyn y mae popeth ail-law, medden nhw. (4,6,2)
16. Gair y merched am ddillad o steil arbennig. (12)
19. Crwybr yw hwn, ond nid o gwch gwenyn chwaeth. (6)
20. Tref y taflegrau ar Fai Aberteifi. (8)
22. Sut y gall rhywbeth teg ac addas droi i'r fath gasineb? (7)
23. Un o'r rhaff a brynais gan y Llydáwr. (6)
24. Cael budd o fod yn wael. (4)
25. Llwyddo i gael ei nofel i eplesu teimladau'r darllenydd. (8)

**I LAWR**

2. Cynysgaeddu Marged ag abledd i lunio brawddeg gywir. (8)
3. 'Llais un gorthrymydd byth ni ddaw I'w deffro i ......... mwy.' (5) (Ieuan Glan Geirionydd - sillafiad gwreiddiol y Methodistiaid)
4. Ef ei hun sy'n yngan y geiriau, ond yn ei hun y mae'n eu llefaru. (6,2,2,4)
5. Gwrthafl cyffredin. (7)
6. Gardd y Brad. (9)
7. Rhuo yn erbyn rhywbeth mewn ysgrifen neu yn lleisiol. (6)
8. Geiriau o ymddiheuriad. (3'1,4,6)
14. Gweriniaeth yng Nghanolbarth America. (9)
15. Cae rygbi go arw yn Sir Fôn. (8)
17. Wrth ladd deri, gellwch eu torri allan. (7)
18. Planhigyn gwyllt sy'n dwyn llwyth o flodau melyn. (6)
21. Blasu'r peth sy'n digwydd i sicrhau ei fod yn iawn. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 154**
Daeth 6 ymgais i law. Yr enw a dynnwyd oedd Margaret Jones, 5 Heol Iscoed, Rhiwbina, ac mae'r tocyn llyfrau ar ei ffordd iddi. Y 5 ymgais gywir ond anffortunus oedd eiddo Marged Davies, Llandaf; Gwenda Mai Hopkins, Llanisien; Carys Humphreys, Bangor; Huana Simpson, Y Bont-faen; a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 155**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Cyncoed, erbyn 20 Tachwedd os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

### Dyrchafiad Dwbl

Llongyfarchion i Rhiannon Lloyd Jones, merch Mr a Mrs Gareth Lloyd Jones, Llandaf, ar gael ei phenodi'n Bennaeth yr Adran Fathemateg yn Ysgol Llanhari. A llongyfarchion iddi hefyd ar ei dyweddiad yn ddiweddar â Julian Bill, sy'n gweithio fel cyfrifydd yng Nghaerdydd. Fe wyddom i gyd erbyn hyn pam mae Rhiannon, sy'n canu gyda'r altos yng Nghôr y BBC, wedi bod yn mynnu eistedd wrth ymyl y baswyr ers cryn amser yn ymarferion y Côr: mae Julian yn canu gyda'r baswyr! Dymuniadau da i'r ddau.

## Nôl i'r Gorllewin

Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth diflino yn ardal Caerdydd, mae Rhian James wedi ei chipio'n ôl i Grymych gan Ifor Davies. Bydd llawer iawn o blant a fu drwy Ysgol Bryntaf yn cofio am gyfnod Rhian yno fel athrawes ymroddedig iawn yn y saithdegau, a hefyd fel aelod o Gôr Poliffonig Caerdydd. Bu'n gyfeilydd ac yn organydd gweithgar hefyd.

Wedi dychwelyd i'w fro o Lundain mae ei gŵr, Ifor, hefyd. Bu'r briodas yng Nghapel y Tabernacl ddiwedd mis Hydref, ac aethpwyd bob cam i Benpompren yng Nglynarthen, ger Aber-porth, ar gyfer y wledd. Digon o amser i'r cawl gynhesu erbyn i'r gwesteion gyrraedd! Bydd Caerdydd ar ei cholled a Chrymych ar ei hennill yn fawr o'r uniad hapus hwn.

## Y CYLCH LLYFRYDDOL

Dr Enid Pierce Roberts o Fangor fu'n annerch y Cylch Llyfryddol ar 18 Hydref ar y testun 'Cerdd Dafod a Cherdd Dant'. Cawsom ein hatgoffa na wnelai'r enw 'cerdd dant' ddim oll â chanu penillion yn wreiddiol, ond golygai yn hytrach y grefft o ganu offeryn - yn arbennig, yng Nghymru, y delyn, y crwth a'r pibau. Roedd yr enw a'r grefft yn hen iawn: nid cyfansoddiadau i'w darllen oedd yr awdlau a'r cywyddau cynnar ond i'w canu neu eu llafarganu i gyfeiliant offeryn, a go brin y gellid - ac y gallwn - eu gwir werthfawrogi heb eu clywed ar gân.


Roedd bri unwaith ar y datgeiniaid ac yn Eisteddfod Caerfyrddin (tua 1450) cynigiwyd tair gwobr - i fardd, i gerddor ac i ddatgeiniad - er mae'n debyg fod y diwethaf o'r rhain wedi colli ei safle urddasol erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Cyfeiriodd y siaradwr at y cysylltiad rhwng datblygiad y cywydd a datblygiad cerddoriaeth eglwysig, a sut y bu'r Diwygiad Protestannaidd a'r Dadeni Dysg yn fodd i ddod â hen draddodiad 'cerdd dant' i ben. Pan dorrwyd i ffwrdd o Eglwys Rufain ceisiwyd dileu popeth a fuasai'n rhan o fywyd eglwysig y Pabyddion: y farn bellach oedd mai 'rhwystr i ddeall yr Ysgrythyr' oedd siantio, a dylid yn hytrach ganolbwyntio ar ddarllen y Gair a myfyrio ynddo, a chafodd dirywiad canu eglwysig effaith andwyol ar yr hen 'gerdd dant'.

Cawsom gyfle i edmygu a gwerthfawrogi o'r newydd wybodaeth eang Dr Enid Pierce Roberts a'i dawn arbennig wrth drafod y gorffennol i ddod â'r cyfan yn fyw iawn i'w gwrandawyr.

**D. Gwyn Jones**

**DATRYSIAD CROESAIR HYDREF**



## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Astudio Tafodiaith yng Nghaerdydd'. Darlith gan Mr Vincent H. Phillips yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Gwyddoniaeth Snwcer.' Darlith gan Dr Iestyn Morris, Prifysgol Cymru Aberystwyth, yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Eglwys Minny St: Darlith gan Tecwyn Vaughan Jones am 7.15 p.m. Croeso i bawb.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Dathlu Canmlwyddiant John Hughes gyda Meuryn Hughes ac Euros Rhys Evans, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mercher, 20 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yng Nghapel Minny St. am 2.00 p.m. I annerch: Valmai Griffiths.

**Mercher, 20 Tachwedd**
Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru (Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin): Darlith gan Dr Douglas Bassett, cyn-Gyfarwyddwr yr Amgueddfa Genedlaethol, ar 'Iorwerth Peate o Lanbryn-mair ac Amgueddfa Werin Cymru', yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 6.00 p.m. Croeso i bawb.

**Sadwrn, 23 Tachwedd**
Ysgol Undydd ar 'Y Gymraeg ym Morgannwg a Gwent' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30 a.m. a 4.00 p.m. Darlithwyr: Beth Thomas a Siân Rhiannon. Tâl: £12. Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Mawrth, 26 Tachwedd**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson Gwis dan ofal Hywel Jones, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Ffair Nadolig a Bore Coffi.

**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Côr Godre'r Garth ac unawdwyr yn perfformio'r *Meseia* (Handel) yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m. Tocynnau £5. Cyswllt: Penri Williams 01222 890040.

**Llun, 2 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Ysgol y Wern, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas Eglwys Minny St: John Albert Evans yn annerch ar fenter Nant Gwrtheyrn am 7.15 p.m. Croeso i bawb.

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson Nadoligaidd gan Gôr Cantemus dan ofal Catrin Lloyd, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mercher, 4 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yng Nghapel Minny St. am 2.00 p.m. I annerch: Mallt Anderson a Myfanwy Jarman

**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: 'Y Ddawn Ddigri'. Noson yng nghwmni'r Parch Caradog Evans, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, 7.15 p.m.

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Planhigion – Peiriannau Hydrolig Pwerus.' Yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson yng nghwmni Rhodri Williams, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Apêl Bobath Cymru.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymry'r Wenallt: Noson yng nghwmni Aled Gwyn yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m.

**Sul, 15 Rhagfyr**
Cân y Nadolig, Eglwys Dewi Sant am 8 p.m. gyda Chôr Caerdydd.

**Mercher, 18 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yng Nghapel Minny St. am 2.00 p.m. Gwasanaeth a Thê Nadolig.

**Mawrth, 31 Rhagfyr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Swper y Llanciau a Gwylnos.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Bu Emyr Jenkins, Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau, yn ŵr gwadd mewn cinio yn Utica yn yr Unol Daleithiau ddiwedd Awst fel rhan o weithgareddau Gŵyl Gymanfa Ganu Utica, ac ef hefyd oedd gŵr gwadd Mudiad Ysgolion Meithrin mewn cinio dathlu chwarter canrif sefydlu'r Mudiad yng Nghastell y Penrhyn ger Bangor nos Wener, 4 Hydref. Bu Emyr Jenkins yn Gadeirydd Cenedlaethol cyntaf MYM, 1971-73, yn Ysgrifennydd Ariannol, 1973-81 ac yn 1982 fe'i etholwyd yn un o Lywyddion Anrhydeddus y Mudiad.

Bore Sul, 29 Medi, fel rhan o ddathliadau chwarter canrif ers sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin gwelwyd Arglwydd Faer Caerdydd, John Phillips a'r Faeres Ray Phillips o flaen Neuadd y Ddinas Caerdydd yn dymuno'n dda i Dei Tomos un o ddarlledwyr BBC Cymru a Merfyn Owen, Rheolwr Rhanbarth Banc Barclays a nifer o feicwyr eraill ar gychwyn seiclo nawdd o Gaerdydd i Fangor i godi arian at y Mudiad. Noddwyd y daith gan Fanc Barclays ac ymunodd nifer o weithwyr y Banc ar rannau o'r siwnai i fod yn gwmni i Dei Tomos oedd yn seiclo'r holl ffordd. Ymunodd nifer o bobl adnabyddus â rhannau o'r daith hefyd megis Dylan Griffiths, Tony Cotty, David Walters, Paul Gregory, Emyr Wyn, Siân Cothi a John Meredith.

Dechreuodd tymor newydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina nos Lun, 16 Medi, pan gafwyd sgwrs ddifyr dros ben am ei brofiadau o ddysgu Cymraeg yng Nghymru yn ogystal â'r Unol Daleithiau ac Awstralia gan John Albert Evans, Llysfaen. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r Gymdeithas ar 7 Hydref, pan gafwyd swper bys a bawd a nifer o'r aelodau yn rhoi sgyrsiau byr ar wahanol bynciau.

Cynhaliwyd Twmpath Dawns yn Neuadd yr Holl Saint dan nawdd Cylch Meithrin Cymraeg Rhiwbina a Gwilym Roberts yn galw.

Yn ddiweddar bu Luned Gonzalez, Y Gaiman, Patagonia ar ymweliad â Chaerdydd er mwyn cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Prydeinig ynglŷn â chynllun anfon athrawon Cymraeg i'r Wladfa i hybu dysgu Cymraeg yno. Mae hi'n ddisgynydd i Michael D. Jones a Lewis Jones arloeswyr sefydlu'r Wladfa yn 1865 ac yn brifathrawes Coleg Camwy yn y Gaiman. Mae ei chwaer Tegai Roberts yn guradur Amgueddfa'r Gaiman ac mae eu brawd Arturo Roberts sy'n byw yn Efrog Newydd yn olygydd y papur newydd Cymreig *Ninnau* yn yr Unol Daleithiau. Hen-fodryb iddynt oedd y llenor Eluned Morgan, a fu draw am gyfnod ar ddechrau'r ganrif yn gweithio ar gasgliadau Cymraeg a Chymreig Llyfrgell Caerdydd, yn gynorthwy-ydd i Ifano Jones.

* * *

**Bu farw** Emlyn George, Y Bont-faen ar 5 Hydref yn Ysbyty Pen-y-bont. Cydymdeimlir â'i briod Morfudd a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Yn ddiweddar** bu farw Malcolm Thomas, Dinas Powys yn 63 oed. Bu'n gynghorydd Plaid Cymru ar Gyngor Cymuned Dinas Powys er 1979. Cydymdeimlir â'i briod Cathy a'u mab Mathew yn eu colled

**Cydymdeimlwn** â Mr a Mrs Iwan Thomas, Highfields, Llandaf, ar farw mam Mr Thomas, Meri Ann Thomas, yn yr Allt-wen, beth amser yn ôl. Cydymdeimlwn hefyd â'r Parchedig a Mrs Aled Edwards, Hafod-lon, Y Mynydd Bychan. Collodd Mrs Edwards ei thad yn ei gartref nid nepell o Newark yn ddiweddar.

## Cymrodorion Caerdydd



Mr Eirug Evans y Cyn-lywydd yn arwisgo Mrs Rhiannon Gregory yn Llywydd newydd Cymrodorion Caerdydd Llun: Robin Griffith

Mae'r Cymrodorion wedi dechrau ar eu gweithgareddau gaeaf eleni eto. Ar ddydd Gwener cyntaf mis Hydref, arwisgwyd llywydd y flwyddyn, Mrs Rhiannon Gregory. Cafwyd swper ac adloniant i ddilyn.

### Crwydro Byd

Mae Ceri Evans, gynt o Heol Conwy ac yn awr o Lundain, yn dilyn cwrs meddygaeth sy'n galw arno i grwydro tipyn. Pan fydd y rhifyn hwn yn ymddangos bydd yn gadael Zanzibar ac ar ei ffordd i Lesotho, gwlad sydd wedi gefeillio â Chymru, trwy weledigaeth Dr Carl Clowes, o Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Powys. Mae Ceri'n astudio meddygaeth yn y trydydd byd sy'n rhan o'i gwrs meddygaeth.

### Cymdeithas Gymraeg Penarth

Ym mis Tachwedd eleni bydd y Gymdeithas Gymraeg yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 mlwydd oed. Trefnwyd i ddathlu'r amgylchiad arbennig hwn â chinio yng ngwesty'r Maenor ar nos Fercher Tachwedd 2. Gellir cael manylion pellach am y Gymdeithas gan y Parchedig Maxwell Evans, 86 Redlands Road. Ffôn: 701963.

### Cymrodorion Y Barri

Agorodd tymor Cymdeithas Cymrodorion y Barri â noson yng nghwmni Tal ac Iris Williams, Clydach, yn adrodd eu hanes yn mynd ati i lunio llyfr am y darlun, 'Salem'. Cafwyd ganddynt hanes yr arlunydd a manylion am y gwahanol gymeriadau. Diolchwyd iddynt gan y Parchedig Beti-Wyn Davies.

Cynhelir cyfarfodydd y Cymrodorion yn festri Capel y Tabernacl ar y drydedd nos Fawrth ym mhob mis. Ar 15 Hydref cafwyd noson ddifyr iawn yn gwrando ar Dr a Mrs Denzil Davies yn sôn am eu taith i Dde Affrica. Bydd y cyfarfod nesaf ar 19 Tachwedd pan gyflwynir noson ar waith Waldo Williams.

### Cylch Cinio y Barri a'r Fro

Y siaradwr yng nghyfarfod cyntaf tymor newydd y cylch cinio oedd Dr R. Elwyn Hughes a siaradodd yn ddifyr iawn am effeithiau niweidiol bwyta bara rhyg. Diolchwyd iddo gan Seiriol Davies a'r llywydd, Mr Alcwyn Deiniol Evans, sy'n ŵr prysur eleni gan ei fod yn dal dwy swydd sef llywydd a thrysorydd y cylch.

Nos Fercher ola'r mis yw noson y cylch cinio ar wahân i noson y gwragedd a gynhelir ar nos Wener olaf mis Tachwedd. Yng ngwesty'r Mount Sorrel y mae pob cyfarfod. Nos Fercher 30 Hydref y siaradwr oedd Geraint Evans o'r BBC. Y wraig fydd yn annerch yn Noson y Gwragedd ar 29 Tachwedd fydd Mrs Myfanwy Jarman, Caerdydd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Cyngerdd Brynhawn Sul

Wedi llwyddiant ysgubol y cyngerdd a gynhaliwyd yn y Crwys y llynedd, penderfynodd pwyllgor Y Gymdeithas gynnal cyngerdd eto eleni, er mwyn codi arian at Apêl Ysbytai Shillong, Durtlang a Jowai yng ngogledd-ddwyrain yr India. Cynhaliwyd y cyngerdd brynhawn Sul, 20 Hydref, ac fe ddaeth tyrfa dda ynghyd ar waethaf y tywydd gwlyb.

Côr Plant Ysgolion Cymraeg Caerdydd oedd y datgeiniaid, dan eu harweinydd Mrs Mair Robins, dirprwy brifathrawes Ysgol Melin Gruffydd. Fe gawsom ganddynt eitemau amrywiol iawn; rhai clasurol, rhai ysgafnach, rhai gwerinol, ynghyd â dwy eitem Cerdd Dant. Cafodd pawb fwynhad mawr o wrando ar y lleisiau ifainc hyn, wedi'u hyfforddi'n drwyadl, ac yn ymateb fel un i'w harweinydd. Roedd yn ddiddorol clywed eu dehongliad o *Rhythm of Life*, un o'r eitemau a gawsom yn y cyngerdd flwyddyn yn ôl. Bryd hynny lleisiau aeddfed côr meibion a glywsom; y tro hwn, lleisiau ffres pobl ifainc. Dyna un o ogoniannau cerddoriaeth: cael clywed dehongliadau mor wahanol o'r un darn, a'r naill yn rhoi llawn cymaint o foddhad â'r llall.

Cafwyd datganiadau hefyd gan aelodau unigol o'r côr. Canodd Julia Thomas gyda'r côr yng nghân Andrew Lloyd Webber *'Gwn mai breuddwyd yw'* (synnais o ddeall nad cân wreiddiol Noel John i Ddyffryn Tywi oedd hon!), ac fe ganodd hi ddeuawd swynol iawn o waith Mozart gyda Hannah Daniel. Adroddodd Caryl Pollard yn dra effeithiol pam nad oedd am adrodd, ac fe glywsom ddwy eitem gerddorol gyda chryn dipyn o hiwmor: deuawd Y Mwydyn gan Mari Osborne a Gethin James, gyda'r *punch-line* anfarwol ar y diwedd, a dehongliad Huw Evans, Rhodri Lloyd a Mathew Preece o'r *Tri Chantor*. Mae'n siŵr y bydd o leiaf un o'r tri gwron yn dilyn Bryn Terfel ar lwyfan yr opera ymhen rhyw ugain mlynedd.

Roedd yna hefyd un datganiad gwadd, sef Ruth Appleby o Ysgol Glantaf. Cawsom ganddi hi ddwy eitem glasurol i'r cello, wedi'u chwarae gyda chryn feistrolaeth ar yr offeryn a'r gerddoriaeth. Mrs Sandra Semmens oedd yn cyfeilio i'r holl eitemau cerddorol.

Yn ystod yr egwyl fe gafwyd anerchiad pwrpasol gan y Cadeirydd, Mr Gwyn Angell Jones. Bu ei rieni yn genhadon ar Fryniau Jaintia am saith mlynedd ar hugain, ac fe dreuliodd ef rai o flynyddoedd ei blentyndod yn byw yn Jowai. Yn wir roedd yn cofio helpu i dynnu'r hen ysbyty i lawr cyn adeiladu'r ysbyty newydd. Cawsom eglurhad ganddo beth oedd blwch cenhadol (i'r rhai nad oedd yn eu cofio), ac ychydig eiriau yn iaith Pnar, sef iaith Bryniau Jaintia. Fe gyflwynodd inni hefyd enw newydd, Meghalaya - 'tŷ yn y cymylau' - y dalaith sy'n cynnwys Bryniau Casia a Jaintia. Mae'r wlad hon yn un ramantus, ond mae'r bobl yn byw mewn tlodi mawr. Dyna pam y mae hi mor bwysig ein bod yn cefnogi'r apêl yn anrhydeddus.

Mr Robin Jones oedd yn arwain y cyngerdd yn ei ddull cartrefol arferol. Talwyd diolch i bawb fu'n ein diddanu gan y Parchg Cynwil Williams, ac fe gyflwynwyd blodau i Mrs Robins a Mrs Semmens gan Gwenno a Mair Rowlands.

Ni allai'r glaw trwm ar ein ffordd adref daflu dŵr oer ar y mwynhad a gawsom yn ystod y prynhawn.

**Delwyn Tibbott**

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg




### *Clwb yr Ifanc*

Cynhelir Clwb yr Ifanc bob nos Sadwrn yng Nghanolfan yr Urdd. Ceir nifer o wahanol weithgareddau a'r cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon sydd yn y ganolfan. Diweddir pob noson gydag epilog. Yn ddiweddar cafwyd noson ddiddorol o dan arweiniad Dr Geraint Morris a ddaeth ag ychydig o'i offer meddygol gydag ef. Cafodd y bobl ifainc edrych i mewn i lygaid ei gilydd trwy beiriant arbennig, gwrando ar guriad calon, archwilio clustiau a mesur pwysedd gwaed. Sicrhawyd un o'r rhai ifanc fod ei phwysedd gwaed gystal fel y dylai fyw i fod yn gant a hanner! Roedd y noson yn llawn hwyl ac yn tanlinellu unwaith eto mai 'rhyfedd ac ofnadwy y'n gwnaed'.

### *Cyfarfod y Gwragedd*

Cynhelir cyfarfodydd gwragedd yn achlysurol yn ystod y flwyddyn a daeth Wyn James i'r cyfarfod cyntaf y tymor yma i sôn am ein hemynyddes enwocaf, Ann Griffiths. Crewyd darlun byw iawn a rhyfedd o agos-atom o'r ferch ifanc hon o Ddolwar Fach a ddaeth i brofiad mor fyw o Iesu Grist. Cawsom ein synnu unwaith eto gan gyfoeth ei hemynau - er mai cymharol ychydig ydynt o ran nifer. Arweiniwyd ni drwy'r emyn sy'n dechrau â'r geiriau, 'Rhyfedd, rhyfedd gan angylion...' Tynnwyd ein sylw at amlder y cyfeiriadau ysgrythurol ynddo, a'r cyfan wedi troi'n brofiad i'r wraig ifanc hon. Fel y gwyddom anodd yw ffitio geiriau emynau Ann Griffiths i donau cynulleidfaol, ac fe'n hatgoffwyd mai i donau rhai o ganeuon gwerin y cyfnod y byddai'r awdures a'i morwyn Ruth yn eu canu. Cawsom noson hyfryd yn meddwl am 'y danbaid, fendigaid Ann' a chodwyd awydd i fynd ati o'r newydd i ddarllen ei hemynau godidog.

**Elisabeth Williams**

## Cyfeiriadur

**Ychwanegiad i'r *'Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro'***

Gweinyddir yr Offeren yn Gymraeg gan y Tad Ieuan bob bore Sul am 11.00 a.m. yn Eglwys y Galon Sanctaidd, Broad Street yn Lecwydd.

**Ysgrifennydd Cyffredinol** newydd Eglwys y Crwys yw Bob Roberts, brodor o Nefyn. Mae e'n olynu D. Gwyn Jones a fu'n gweinyddu trwy gydol tymor y symud o'r hen gapel i Heol Richmond.

## Llongyfarchion

Llongyfarchion i dîm cwis Eglwys Dewi Sant, o dan arweiniaid Mrs Andrea Miller, am ddod yn gyntaf mewn cwis a drefnwyd gan 'Gristnogion yn Erbyn Poenydio' ar gyfer holl eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Heol Minny'n ddiweddar. Dim ond o drwch pwynt neu ddau y daethpwyd i'r brig ond roedd y fuddugoliaeth yn felys.

# NEWYDDION YR URDD



## Gweithgareddau hanner tymor yr Hydref

Yn ystod hanner tymor Hydref trefnwyd amrywiol weithgareddau ar gyfer aelodau'r Urdd yn Ne Morgannwg gan gynnwys Cynllun Chwarae, Cwrs Animeiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a Chwrs Merlota. Cawsom ymateb gwych i bob gweithgaredd a bu raid siomi amryw o blant oherwydd bod pob cwrs yn llawn. Rydym yn bwriadu trefnu Cynllun Chwarae arall yn ystod hanner tymor mis Chwefror a hefyd bydd cyfle arall i fynd ar gwrs merlota a chwrs animeiddio yn ystod 1997.


Hoffai'r Urdd ddiolch i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau a hefyd i Wendy Thomas, Lisa Jenkins, Andrew Davies, Gary Lewis, Aron Evans ac Owen Stickler am gynorthwyo.



Cwrs Merlota Blwyddyn 5 a 6 Plant Melin Gruffydd, Treganna, Pen-y-garth, Pen-cae a Bro Eirwg



* * *



## Cwis a Disgo yng Nghlwb y BBC



Rydym wedi trefnu Cwis a Disgo arall i godi arian i'r Urdd yn nghlwb y BBC ar nos Iau, 5 Rhagfyr i ddechrau am 7.30 pm. Bydd thema Nadoligaidd i'r cwis dan arweiniad Ieuan Rhys, a disgo a bar hwyr tan 12.00am. Croeso i dimau o 4-6 oedolyn.


Hoffai'r Urdd ddiolch i'r timau canlynol am gefnogi dau gwis llwyddiannus yn ystod '96:
Tîm HTV, Staff Ysgol Casnewydd, Tîm *Pobol y Cwm*, Staff Ysgol Glantaf, Cwmni Apollo, Cwmni Alfresco, Tîm y 'Duke', Staff Rhyd-y-waun, Tîm S4C, Staff yr Urdd, Tîm Pêl-droed *Pobol y Cwm*, Staff Agenda, Staff Llanhari, Cwmni Opus a Chwmni Boomerang.



Cwrs Animeiddio disgyblion 6ed dosbarth Glantaf



Bechgyn y Cynllun Chwarae



## Gwasanaeth Carolau

Am y tro cyntaf i'r Urdd yn Ne Morgannwg rydym wedi trefnu Cyngerdd Garolau ar gyfer ysgolion cynradd Cymraeg y sir yng Nghapel Minny St. brynhawn dydd Mawrth 17 Rhagfyr, 1.45-2.45pm. Bydd Caryl Parry Jones yn arwain y gwasanaeth. Mae croeso i unrhyw un â diddordeb ddod i wrando ar y canu.

**GWELWN CHI 'NA!**

# YSGOL GLANTAF

## Cystadleuaeth Allied Steel & Wire Innovation Design

Cystadleuaeth oedd hon yn rhoi'r cyfle i ieuenctid y sir, a oedd yn astudio Technoleg lefel A, i wneud prosiect sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyntaf o'u hastudiaeth. Roeddwn i yn un o'r cystadleuwyr hyn a oedd wedi mynd ati i gynllunio a gwneud cynnyrch a fyddai'n ateb brîff y gystadleuaeth. Dros gyfnod o flwyddyn roedd rhaid adeiladu prosiect a fyddai'n dangos i'r beirniaid, ar ffurf lluniau graffigol, yr holl fanylion ymchwil a hefyd sut yr oedd y cynnyrch yn gweithio.

Ar gyfer fy mhrosiect i fe benderfynais gynllunio pabell a fyddai yn bosib ei phacio yn fach er mwyn ei chario, ac a fyddai'n rhwydd i'w godi mewn argyfwng. Ar ôl ymchwil manwl i'r hyn oedd ar y farchnad a hefyd syniadau personol, fe feddyliais wneud pabell y byddai'n bosib ei chwythu hi fyny gydag aerosol o aer. Dyna beth oedd yn gwneud y babell yn arbennig ac yn wahanol i unrhyw beth tebyg ar y farchnad.

Fe gafodd y gystadleuaeth ei chynnal ym Mae Caerdydd. Roedd yna lawer o gystadleuwyr o wahanol ysgolion a cholegau chweched dosbarth yno, pob un yn gobeithio ennill gwobr. Roedd y gystadleuaeth yn un galed ac roedd yna sawl prosiect o safon uchel iawn. Ar ôl i'r beirniaid fynd o amgylch ac edrych ar y prosiectau a siarad gyda'r cystadleuwyr fe wnaethon nhw eu penderfyniad. Yn gyntaf roedd Steven McDonald o St. Cyres, ac yn ail Aled James o Ysgol Glantaf.

Roedd y wobr yn un arbennig iawn, taith i'r Alban am wythnos i weld arddangosfeydd a phethau tebyg o ddiddordeb technegol. Yr oeddwn yn dechrau yn Glaschu, gan edrych ar waith Rennie Mackintosh ac ymweld â gorsaf bwer hydro, yna mynd i fyny i Inverness i weld distyllty whisgi. Yna dod nôl lawr i Gaeredin i weld y castell a'r ddinas enwog. Fe fwynheais i'r daith yn fawr iawn a hoffwn ddiolch i Allied Steel & Wire a hefyd i Shirley McIntosh am drefnu y gystadleuaeth a'r wobr.



Mae yna lawer o gystadlaethau tebyg yn cael eu cynnal bob blwyddyn, felly os oes rhywun yn astudio Technoleg yn y chweched dosbarth mae'n syniad da i gystadlu. Mae cael cymeradwyaeth am eich gwaith a'r posibilrwydd o ennill gwobr yn rhywbeth i anelu ato.

**Aled James**



Aled James a'i babell

## Llwyddiannau Rygbi Glantaf

### Cystadleuaeth 7 bob ochr Ysgolion Cymru (dan 15 oed)



Roedd hwn yn dwrnamaint i ysgolion Cymru gyfan. Gwrthwynebydd cryfaf Glantaf oedd Ysgol Dwr y Felin, Castell-nedd. Cafwyd gêm gyffrous yn eu herbyn a chyfartal oedd y sgôr gyda Glantaf yn mynd trwodd i'r rownd nesaf oherwydd iddynt sgorio mwy o geisiadau. Chwaraewyd yn erbyn Ysgol Oakdale yn y rownd gyn-derfynol ac enillodd Glantaf 27 pwynt i 7. Braf oedd gweld dwy ysgol Gymraeg yn chwarae yn y rownd derfynol - Glantaf ac Ysgol y Strade. Enillodd Glantaf y gêm hon 29 pwynt i 15.

### Cystadleuaeth 7 bob ochr Llandeilo

Derbyniodd Ysgol Glantaf wahoddiad i gystadlu yn y twrnamaint hwn sydd erbyn hyn wedi datblygu i fod y mwyaf o'i fath yn y wlad gyda 32 o ysgolion De Cymru yn cystadlu. Unwaith eto chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda a dewiswyd y capten, Nicky Robinson, yn 'chwaraewr y twrnamaint'. Cafwyd buddugoliaethau yn erbyn ysgolion Cefn Hengoed (Abertawe), Syr Thomas Picton (Hwlffordd), Dŵr y Felin (Castell-nedd), Yr Eglwys Newydd (Caerdydd) a Dyffryn Aman (Rhydaman).



Y Tîm: Rhes ôl: Khal Salim, Hywel Llŷr, Damian Howden, Tom Roberts, Elgan Jones
Blaen: Aled Guy, Geraint Williams, Nicky Robinson (capten), Ryan Brtany, Geraint Rees.

Llun: Robin Griffith

## Priodas



Llongyfarchiadau gwresog iawn i Robert Jewell a Mari Gruffydd Jones ar eu priodas yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Glantaf a daeth cynrychiolaeth dda o'r ysgol ynghyd i ddymuno'n dda iddynt ar yr achlysur hapus. Fel rhan o'r gwasanaeth priodasol cafwyd eitem gerddorol hyfryd gan gôr o ferched blynyddoedd 9 a 10.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG dan ofal B.D. Harries


## Ysgol Pwll Coch

Agorwyd drysau Ysgol Gymraeg Pwll Coch - wythfed ysgol gynradd Gymraeg Caerdydd - ar 3 Medi 1996. Mae 23 o ddisgyblion a thair o staff yno, a phob un wedi ymgartrefu yn hynod o dda yn ystod y cyfnod cyffrous hwn yn hanes yr ysgol a thwf addysg Gymraeg yn y brifddinas. Cafwyd sawl ymwelydd i'r ysgol hyd yn hyn a'r plant wrth eu bodd yn croesawu ffrindiau newydd.

Cartref dros dro yr ysgol yw'r adeilad hyfryd ar gyrion campws Ysgol Uwchradd Fitzalan. I unrhyw un sy'n dod i ymweld â ni, chwiliwch am y pwll nofio; rydyn ni drws nesaf ar ein campws ein hunain. Rydym wedi derbyn croeso twymgalon gan Mr Angus Dunphy y Pennaeth, ei staff a'r plant. Clywir ambell un o blant Fitzalan yn ymarfer eu Cymraeg gyda phlant Pwll Coch drwy'r ffens sydd rhwng y ddwy ysgol!

Addewid Cyngor Sir Caerdydd yw y bydd Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn symud i ysgol newydd sbon ym mis Medi 1998, adeilad a fydd yn cael ei adeiladu ar safle heb fod nepell i ffwrdd.

Tynnwyd y llun yma y tu allan i'r brif fynedfa - yn anffodus roedd rhai o'r plant yn sâl ar y diwrnod yma.



## Ysgol Mynydd Bychan

Cafwyd agoriad swyddogol Ysgol Mynydd Bychan yn ddiweddar, sef seithfed ysgol gynradd Gymraeg y brifddinas. Fe'i hagorwyd gan Faeres Caerdydd, Mrs Ray Phillips. Cafwyd cyngerdd bach gan y plant cyn i Mrs Phillips ddadorchuddio plac a wnaed o lechen Gymreig. Er mai nawr y mae'r ysgol yn cael ei hagor yn swyddogol y mae hi'n bod ers tro, wrth gwrs, ac yn tyfu'n gyson gyda dosbarth newydd yn cael ei ychwanegu bob blwyddyn.

Dechreuodd yr ysgol mewn adeilad dros dro ar safle hen Ysgol Howardian ym Mhen-y-lan ac mae bellach wedi ymgartrefu yn hen adeiladau Ysgol St. Joseff ger Tŷ'r Cwmnïau ar y Mynydd Bychan, adeiladau sydd wedi eu hadnewyddu yn helaeth ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan.

## Ysgol Sant Curig, Y Barri


Wedi ymweliad arolygwyr y llywodraeth ym Mehefin cafodd Ysgol Gymraeg Sant Curig, Y Barri, adroddiad ardderchog. Llongyfarchwyd yr ysgol ar lwyddo i greu awyrgylch mor hyfryd i'r plant. Creodd y berthynas gyfeillgar rhwng staff a disgyblion argraff arbennig a chanmolwyd y modd y defnyddir arddangosfeydd ystyrlon a lliwgar i ychwanegu at yr ethos gweithgar a chartrefol a geir yn yr ysgol.

Bedair blynedd yn ôl y sefydlwyd Ysgol Sant Curig yn hen Ysgol Ramadeg y Merched. Erbyn hyn mae 312 o blant yno, ynghyd â 11 o athrawon llawn amser a 2 o rai rhan-amser, ynghyd â'r brifathrawes, Mrs Eleri Hourahane. Llongyfarchion cynnes i bawb.

### Oriel yr Anfarwolion

Mae Ysgol Gyfun Rhydfelen â llawer o'i hen ddisgyblion yn byw yn y brifddinas. I chi mae'r nodyn hwn, felly. Mae'r ysgol am greu Oriel y Cyn-ddisgyblion yn yr ysgol ac mae am i bob un ohonoch chi sy'n gyn-ddisgybl helpu trwy anfon llun at Miss Llinos Jones yn yr ysgol, ynghyd â chrynodeb o'ch gyrfa. Bydd hyn yn help i'r dyfodol wybod am y dyddiau fu ac i chwithau gofio am 'y llwybrau gynt lle bu'r gân'.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies



## Y Bêl Hirgron

### Clwb Rygbi Cymry Cymraeg Caerdydd

Gyda thymor 96-97 yn prysur fynd rhagddo, mae'r Clwb wedi cael dechrau addawol iawn. O dan arweiniad Rhidian Lloyd ac Andy Edwards, amlygwyd steil agored y clwb ym muddugoliaethau campus y tîm cyntaf a'r ail dîm.

Enillodd y tîm cyntaf dair gêm yn y cynghrair ar ôl colli'r un gyntaf yn erbyn CIACS. Yn ogystal, cyrhaeddodd y tîm ail rownd Cwpan Mallet wrth guro tîm Gogledd Llandaf o 61 i 20.

Da oedd gweld yr ail dîm yn curo ail dîm Yr Eglwys Newydd wrth iddynt hwythau gamu ymlaen i ail rownd Cwpan Ninian Stuart.

I Darren Phillips a'i Gwmni mae'r diolch am noddi crysau newydd y tîm cyntaf eleni. Yn ogystal â chroesawu Barrie Lewis fel hyfforddwr, mae nifer o chwaraewyr addawol newydd wedi ymuno â'r clwb.

Croesewir unrhyw un i ymuno â'r ymarfer a gynhelir ar nos Lun yng Nghampfa Glantaf Uchaf am 6.30 yr hwyr, ac ar nos Fercher o dan y llifoleuadau yn Ysgol Fitzalan am 7.30. Os ydych am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhidian Lloyd ar 221216.

**Rhidian Lloyd**

## Cwpan Clybiau Ewrop

Dechreuodd y gystadleuaeth y llynedd a Toulouse oedd y pencampwyr trwy guro Caerdydd ar Y Maes Cenedlaethol o ddau gais i ddim (21-18). Gwelodd 21,800 yr ornest honno. Bu'r clwb Ffrengig yn drech na Chaerdydd eto eleni gerbron 10,000 wrth ennill o bedwar cais i un (36-20) yn y rownd gyntaf, ond cyrhaeddodd Caerdydd y rownd ogynderfynol yn erbyn pob disgwyl. Roedd eu buddugoliaeth yn Llundain yn erbyn y Wasps yn un nodedig ac fe wnaeth honno, a buddugoliaeth Pontypridd yn erbyn Caerfaddon, les mawr i'r genedl - nid oedd bwlch anferth rhwng clybiau'r ddwy wlad ar ôl yr holl rincian dannedd. Trueni bod yn rhaid imi ysgrifennu cyn diwedd y rownd gyntaf o achos yr oeddem ni ar y pryd yn gobeithio gweld Llanelli, Pontypridd a Chaerdydd yn y rownd ogynderfynol, gyda Ffrainc a Lloegr yn rhannu'r pum lle arall.

Cyneuwyd diddordeb mawr yn y gystadleuaeth - ond nid ymhlith y cefnogwyr yng Nghymru. Bu llai na thair mil ar Y Strade i wylio Leinster a'r un nifer yng Nghaerdydd pan gafodd Munster grasfa, ac yng Nghastell-nedd prinnach fyth fu'r gefnogaeth - ryw fil yr un a ddenwyd i wylio Caledonia ac Ulster. Ai ar y teledu yr oedd y bai? Teledwyd Pontypridd yn erbyn Caerfaddon hefyd, ond yr oedd y cae yn Heol Sardis yn llawn dop y Sadwrn gwlyb hwnnw.




## Nofio



### Clwb Nofio

Dechreuodd y clwb tua saith mlynedd yn ôl yn dilyn syniad fy ffrind, y ddiweddar Glesni Evans. Roeddem ni'n dysgu gyda'n gilydd ar y pryd yng Nglantaf, a'i breuddwyd oedd ymweld â'i brawd yn Awstralia. Er mwyn rhoi help llaw iddi, penderfynodd y ddwy ohonom ddarparu gwersi nofio i ddisgyblion yn ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas. Golygai hyn ddysgu nofio ar brynhawn Sadwrn am ddwy awr yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia. Cawsom ymateb da a llawer iawn o hwyl, ac ar ôl dau gwrs llwyddiannus, gadawodd Glesni i fynd ar ei thaith. Yn anffodus, yn dilyn damwain erchyll bu farw heb gyrraedd ei chyrchfan. Ceir cofeb iddi yng nghyntedd Ysgol Uchaf Glantaf.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y ddau gwrs ac wedyn gorffen, ond cymaint oedd ymateb a brwdfrydedd y rhieni a'r plant, cefais fy narbwyllo i barhau. Newidiwyd y dydd a'r lleoliad, i nos Fawrth ym mhwll nofio Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Ers hynny, mae nifer o athrawon wedi mynd a dod, ac mae rhai o'r disgyblion cynnar erbyn hyn wedi gadael Ysgol Glantaf.

Prif nod y dosbarthiadau yw dysgu'r disgyblion sut i nofio, ond yn achlysurol maent yn cael y cyfle i wneud profion ac ennill tystysgrifau a bathodynnau. Erbyn hyn mae rhai disgyblion wedi symud ymlaen i ymarfer i safon uwch a chystadlu mewn clwb tra bydd eraill yn gorfod gadael am fod angen eu lle yn y dosbarth. Yn y dyfodol carwn weld rhywun yn cynnal dosbarthiadau i'r rhain fel y gallent ehangu eu sgiliau yn achub bywyd, cam naturiol y credaf sy'n holl bwysig i unrhyw unigolyn.

Er bod y dosbarthiadau dan eu sang ar hyn o bryd, croeso i chi gysylltu am ragor o fanylion â Mrs Gaynor C. Jones, rhif ffôn yn yr hwyr - Caerdydd 627668.



**Gaynor C. Jones**

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

## *Shwmae eto!*

Mae mynd i ddosbarth Cymraeg yn bwysig iawn. Ond cofiwch fod modd i chi **ymuno â'ch cangen leol o 'CYD'** - y mudiad sydd yn dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr **ynghyd** mewn **sefyllfaoedd cymdeithasol** er mwyn **ymarfer** eich Cymraeg y tu allan i'r dosbarth - a chael tipyn o hwyl. **Y newyddion da** yw bod CYD **newydd apwyntio Geraint Bowyer** i weithio yng Nghaerdydd - ffoniwch Geraint ar rif ffôn 01443 226386 a **gwyliwch y tudalen hwn** am fwy o fanylion **am ddigwyddiadau yn y dyfodol.**

**ON Cofiwch fod croeso arbennig i Gymry Cymraeg ddod i unrhyw un o ddigwyddiadau CYD. Mae nifer o Gymry yn mynd am goffi neu ginio a thipyn o glonc ac mae'n gyfle gwerthfawr i'r dysgwyr gael siarad â siaradwyr iaith gyntaf.**

**Gill Stephen**
Tiwtor-Drefnydd (Cymraeg i Oedolion)
Consortiwm Caerdydd a'r Fro

**GEIRFA**

**ymuno â'ch cangen leol o 'CYD'** - to join your local branch of CYD
**ynghyd** - together
**sefyllfaoedd cymdeithasol** - social events
**ymarfer** - to practice
**y newyddion da** - the good news
**newydd apwyntio** - just appointed
**gwyliwch y tudalen hwn** - watch this page
**am ddigwyddiadau yn y dyfodol** - for future events

Yr ateb i bôs mis Hydref
**'Beth sy â chant o goesau ond sy ddim yn gallu cerdded?'**
*yw*
**'Pum deg pâr o drowsus!!'**
Bydd enwau enillwyr y mis 'ma yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd.*

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn pôs arall yw ein cystadleuaeth:
**'Beth sy'n digwydd unwaith mewn wythnos ond dim dwywaith mewn blwyddyn?'**

Mae **Coleg Glan Hafren** yn cynnig 'Pecyn Dychwelyd i'r Dosbarth' (sef pecyn o angenrheidiau ar gyfer mynd yn ôl at eich dosbarth ar ôl yr haf hir - ffeil, papur, pensiliau, pren mesur, ayb) i'r person cyntaf â'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr ar gerdyn post gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw **Coleg Glan Hafren, 35 Y Parêd, CAERDYDD CF2 3AD**

**DALIER SYLW - DOSBARTH LEFEL 'A' I OEDOLION IAITH GYNTAF YNG NGHOLEG GLAN HAFREN**

Oeddech chi'n siarad y Gymraeg fel mamiaith ar yr aelwyd, ond yn derbyn eich addysg drwy gyfrwng Saesneg? Neu a oeddech yn derbyn eich addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain ond yn dod o deulu di-Gymraeg?

Am ba reswm bynnag os nad ydych wedi sefyll Safon 'A' Cymraeg o'r blaen neu os ydych eisiau ei ail-sefyll, dyma'ch cyfle chi! Rydym yn cynnig Dosbarth Nos Safon 'A' ar gyfer Oedolion. Dyma'r unig ddosbarth nos o'r fath unrhyw le yng Nghaerdydd.

Cysylltwch â fi ar y rhif isod am fwy o fanylion
Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 01222 250439

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **23/11/1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **05/12/1996** 11.45 - 1.15pm | Clwb Cinio, Canolfan Palmerston, Y Barri Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **07/12/1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan Palmerston, Y Barri Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **11/12/1996** 7.00 - 9.00pm | Clwb Siarad, Canolfan Palmerston, Y Barri Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Womanby St., Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi y Fro, Wesley Court, Dinas Powys Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 250439**

## YSGOLORIAETHAU I AWDURON 1997/8

Cyngor Celfyddydau Cymru · The Arts Council of Wales

Gwahoddir ceisiadau am y cymorthdaliadau canlynol:

- Ysgoloriaethau i Awduron Cyhoeddedig
- Ysgoloriaethau i Awduron Newydd
- Ysgoloriaethau ar gyfer cyfieithu gwaith llenyddol
- Ysgoloriaethau Irma Chilton ar gyfer ysgrifennu i blant
- Ysgoloriaethau i Awduron Anabl
- Grantiau Teithio

Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: **16 Rhagfyr 1996**

Ceir manylion ychwanegol a ffurflenni cais oddi wrth yr Adran Lenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX. Ffôn: 01222 394711 Ffacs: 01222 221447

## RALI ENFAWR CYMRU NEWYDD

*NODWCH Y DYDDIAD:*

**16·11·96**

**CAERDYDD**

**DEDDF IAITH**
**DEDDF ADDYSG**
**DEDDF EIDDO**

- **RALI** Neuadd Undeb y Myfyrwyr – 2pm
  Siân Howys · Dafydd Iwan · Rhodri Morgan AS · Richard Livsey · Hywel Teifi Edwards
- **GORYMDAITH** trwy'r Ddinas – 3pm
- **PARTI** tu allan i'r Swyddfa Gymreig – 3.30pm
  Paul Flynn AS · Toni Schiavone · Cerddoriaeth Fyw · SAMBA GALES
- **GWYBODAETH AM FYSYS: 01970 624501**

## PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES

**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Busnes i'r Diwydiant Cyfryngau***

***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***
(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)

***Gwasanaethau Busnes***

***Gwasanaethau a Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch: Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**

## Cwrs Hyfforddi mewn Cymraeg i Oedolion

Bydd Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd, yn cynnal cwrs hyfforddi tiwtoriaid yn y Ganolfan ar 22, 23 Hydref a 16 Tachwedd. Fe'i bwriedir ar gyfer Cymry Cymraeg a dysgwyr profiadol sydd erioed wedi dysgu Cymraeg o'r blaen ond hoffai wneud hynny neu diwtoriaid sydd wedi bod wrthi ers rhyw flwyddyn neu ddwy ond sydd ddim wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn y maes. Bydd y sesiynau hyfforddi'n rhai ymarferol, gyda'r pwyslais ar ddangos i'r darpar-diwtoriaid sut i ddysgu dosbarth yn effeithiol.

**Am ragor o fanylion cysylltwch â:**
**Richard Lewis, Canolfan Dysgu Cymraeg,**
**22 Park Place, Caerdydd.**
**Ffôn: (01222) 390880 Ffacs: (01222) 236071**

## CLWB IFOR BACH

**11 Stryd Womanby, Caerdydd**

## Adloniant Byw:

**Tachwedd 15**

**MEIC STEVENS**
**ALBERT HOFMAN**

**Tachwedd 16**

**DIFFINIAD**

**Gwasanaeth Teipio** Cymraeg a Saesneg proffesiynol ar gael. Gellir teipio Adroddiadau, Llythyrau ayyb ar Brosesydd Geiriau (Pecyn Teipio Clarisworks a Windows). Teipyddess â phrofiad eang, gyda 45 gym yn y Gymraeg a'r Saesneg. Prisiau rhesymol iawn. Cysylltwch â **Chaerdydd (01222) 552017**

## *Cymdeithas Addysg y Gweithwyr*

Gogledd a De Cymru

**W.E.A**

### Cyrsiau i Oedolion

Cyrsiau **dydd** a chyrsiau **nos**, 5 i 20 wythnos, mewn gwahanol bynciau:

**Hanes, Hanes Lleol, Arlunio, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth, Byd Natur, Cymraeg fel ail-iaith, Gloywi Iaith, Dychwelyd i Addysg a.y.b**

*Ar gael hefyd :*

**Ysgolion Undydd a Chyrsiau Penwythnos**

Am fwy o fanylion, cysylltwch â'ch llyfrgell leol neu â

Swyddfa'r W.E.A., 33 Ffordd-y-Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2AP. Ffôn : 01248 353254

Swyddfa'r W.E.A., 10 Coopers Yard, Trade Street, Caerdydd CF1 5DQ Ffôn : 01222 235277

CBAC WJEC

## SIOP LYFRAU

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON 'UWCH'
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS + PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00am - 5.00pm**

245 Rhodfa'r Gorllewin Llandaf CAERDYDD CF5 2YX
☎ (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
☎ (01222) 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
FFACS: (01222) 575987

# CYFARFOD CYHOEDDUS
# PUBLIC MEETING

S4C

**Yn cyfarfod y gwylwyr** • **Meeting the viewers**

Cyfle i holi
Cadeirydd,
Prif Weithredwr a
Phrif Swyddogion
y sianel

**Ystafell Wedgwood**
**Gwesty'r Park**
**Caerdydd**
**Nos Fawrth 7.30**
**Rhagfyr 3 1996**

Darperir gwasanaeth
cyfieithu ar y pryd

Your chance to air
your views with the
channel's Chairman,
Chief Executive and
Senior Executives

**Wedgwood Room**
**The Park Hotel**
**Cardiff**
**Tuesday 7.30**
**December 3 1996**

A simultaneous Welsh/English
translation service will
be provided

**Croeso i bawb**
**Welcome**

S4C